### Dyfalwch fy rhif
Dewiswch rif car y gallwch ei weld, e.e. 592.

P592 CTM

- Adiwch 10 i'r rhif sydd yn eich pen.  Dwedwch beth yw'r ateb.
- A all eich plentyn ddyfalu pa gar roeddech chi'n edrych arno? Os felly, gall e/hi gael tro nesaf.

### Cyfrif cyfrinachol
- Gofynnwch i'ch plentyn ddweud rhif, e.e. 43.
- Gwnewch rywbeth i hwnnw'n gyfrinachol (e.e. adio 30). Dwedwch beth yw'r ateb e.e. 73.
- Bydd eich plentyn yn rhoi rhif arall i chi, e.e. 61.
- Gwnewch yr un peth i'r rhif hwnnw a dwedwch yr ateb.
- Mae'n rhaid i'r plentyn ddyfalu beth rydych yn ei wneud i'r rhif bob tro!
- Yna gall eich plentyn gael tro i adio neu dynnu rhywbeth yn gyfrinachol â rhif y byddwch chi yn ei roi iddo/iddi.

### Maths o'r Cwpwrdd
Gofynnwch i'ch plentyn edrych ar y pwysau sydd wedi eu hargraffu ar jariau, tuniau a phecynnau yn y cwpwrdd bwyd, e.e.





tun  tiwna185g
tun tomatos 400g
jam 454g

Dewiswch chwe eitem. Gofynnwch i'ch plentyn eu rhoi mewn trefn. Ai'r eitem fwyaf yw'r trymaf?

# Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 3

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn




## Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

# Targedau – Blwyddyn 3 3

**Erbyn diwedd Blwyddyn 3, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu …**

- ☐ Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1000 a'u rhoi yn eu trefn. Gwybod beth yw gwerth pob digid.
- ☐ Cyfrif ymlaen neu yn ôl fesul deg neu fesul gant o unrhyw rif dan 1000, e.e. 462, 472, 482 … neu 462, 562, 662…
- ☐ Gwybod ffeithiau adio a thynnu hyd at 20 ar eu cof, e.e. 4 + 16 = 20, 12 – 8 = 4.
- ☐ Datrys symiau fel 56 + 29, a 97 – 51 yn eu pen.
- ☐ Gwybod tabl 2, 5 a 10 ar eu cof.
- ☐ Gwneud rhannu syml, fel 27 ÷ 5.
- ☐ Darganfod ffracsiynau syml, fel $^1/_2$, $^1/_3$, $^1/_4$, $^1/_5$, $^1/_{10}$ siapiau a rhifau.
- ☐ Dweud faint o'r gloch yw hi i'r 5 munud agosaf
- ☐ Defnyddio **£.c**. e.e. gwybod mai £2 a 4c yw £2.04.
- ☐ Datrys problemau rhif syml ac esbonio sut y cafwyd yr ateb.
- ☐ Adnabod onglau sgwâr a llinellau cymesuredd.
- ☐ Esbonio graff syml.

## Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 3.

Mae'n bosib bod y targed yn fwy cymhleth mewn gwirionedd, e.e. efallai na fydd plentyn sy'n gallu cyfrif hyd at 1000 yn gwybod yr hyn y mae pob digid yn ei gynrychioli. Er enghraifft, yn y rhif 784, 80 yw gwerth yr '8', ac nid 8 yn unig.

## Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

### Bingo!

Mae tabl 2 gan un person a thabl 5 gan y llall.  Ysgrifennwch chwe rhif sydd yn y tabl hwnnw ar eich darn o bapur, e.e.

4    8    10    16    18    20

- Rholiwch un dis neu ddau. Os byddwch yn rholio dau ddis, adiwch y rhifau, e.e. rholio dau ddis a chael 3 a 4, adio'r ddau i wneud 7.
- Lluoswch y rhif hwnnw â 2 neu 5 (hynny yw, yn ôl y tabl sydd gennych chi e.e. 7 x 2 neu 7 x 5).
- Os yw'r ateb ar eich papur, gallwch roi croes drwyddo.
- Y cyntaf i rhoi croes drwy ei chwe rhif sy'n ennill.

